Borth & Ynyslas Coastal Protection Development Stage	36	-	-	-
Aberaeron Coastal Protection schemes	4,266	-	-	-
Fleet Replacement	1,763	250	1,750	1,750
16t 26t Refuse Collection vehicles Refurbishment	100	200	-	-
Total - Highways and Environmental Services	14,176	4,463	3,890	3,890

UK Shared Prosperity Fund

UK Shared Prosperity Fund (Powys and Ceredigion)	3,843	-	-	-
Total - UK Shared Prosperity Fund	3,843	-	-	-

The Local Growth Fund

The Local Growth Fund	-	8,500	-	-
Total - Local Growth Fund	-	8,500	-	-

Policy Performance and Public Protection

Inphase Contract	14	-	-	-
Total - Policy Performance and Public Protection	14	-	-	-

Proposed Multi-Year Capital Programme 2025/26 - 2028/29

2025/26 latest	2026/27 proposed	2027/28 indicative	2028/29 indicative
TOTAL	TOTAL	TOTAL	TOTAL
£'000	£'000	£'000	£'000

Customer Contact

ICT Kit and Infrastructure investment
ICT Core Network Switching Infrastructure
Aberaeron Library Development

327	300	300	300
211	-	-	-
185	-	-	-

Total - Customer Contact

723	300	300	300
-----	-----	-----	-----

Finance & Procurement

Community Grant Scheme

149	100	100	100
-----	-----	-----	-----

Total - Finance & Procurement

149	100	100	100
-----	-----	-----	-----

Service Reform

Capitalisation Direction - Service Reform

100	-	-	-
-----	---	---	---

Funding to be allocated

-	-	-	597
---	---	---	-----

TOTAL WORKING PROGRAMME

39,597	27,430	8,315	8,387
--------	--------	-------	-------

Contingencies

-	140	90	250
2,100	4,200	4,200	4,200

New Approved Grants/Match funding for grant schemes

Total - Contingencies

2,100	4,340	4,290	4,450
-------	-------	-------	-------

TOTAL OVERALL PROGRAMME

41,697	31,770	12,605	12,837
--------	--------	--------	--------

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cyngor Llawn

Dyddiad y cyfarfod: 02/03/26

Teitl: Adroddiad ar y Cyd gan yr Arweinydd, Aelod Cabinet - Cyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol - Cyllid a Chaffael ar y Gyllideb 26/27, gan gynnwys y Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys.

Pwrpas yr adroddiad: Cymeradwyo'r Gofyniad Cyllideb y Gyllideb Refeniw ar gyfer 26/27; pennu lefel Treth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir ar gyfer 26/27; cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn a'r Dangosyddion Darbodus.

Er: Penderfyniad

Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor
Y Cynghorydd Gareth Davies Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael
Holl Aelodau'r Cabinet

1. Cefndir

Ar 13/01/26 ystyriodd y Cabinet Gyllideb ddrafft 2026/27, yn seiliedig ar Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru (fel y'i diweddarwyd yn dilyn y Cytundeb Cyllideb a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru), a cheisiodd farn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb.

Cyfarfu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedyn ar 26/01/26, 02/02/26 a 03/02/26.

Yn y cyfarfod ar 10/02/26, ystyriodd y Cabinet y canlynol:

- Adroddiadau adborth ar y Gyllideb gan Gadeiryddion pob un o'r Pwyllgorau Craffu.
- Y cynnig penodol ar gyfer y Gyllideb a argymhellir gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach (Cost ychwanegol o £41k).
- Adroddiad ar yr Ymgysylltu Cyhoeddus â'r Gyllideb a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr 2025 a dechrau mis Ionawr 2026.
- Diweddariad ar Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru (Cyllid ychwanegol o £6k).
- Cadarnhad o gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£38k) i wrthbwysu cost ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

O ganlyniad, ar 10/02/26 gwnaeth y Cabinet yr argymhellion canlynol i'r Cyngor Llawn:

- a) Y Gofyniad Cyllideb ar gyfer 26/27 yw £221.499m.
- b) Bod lefel Treth y Cyngor ar gyfer 26/27 at ddibenion Cyngor Sir yn cynyddu 4.75%, a fyddai'n cyfateb i gynnydd blynyddol o £89.61 (sef £7.47 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
- c) Bod y Rhaglen Gyfalaf Aml-FIwyddyn wedi'i diweddarau, fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 13/01/26, yn cael ei chymeradwyo.
- d) Bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet ar 13/01/26, yn cael ei chymeradwyo.

2. Trosolwg o'r Gyllideb

Arweiniodd Setliad Llywodraeth Leol Terfynol 26/27, a gyhoeddwyd ar 20/01/26, at Geredigion yn derbyn cynnydd o **4.1% o gyllid**. Roedd Ceredigion yn un o bedwar Awdurdod Lleol a **dderbyniodd y cynnydd isaf yng Nghymru**, gyda'r cynnydd uchaf yn cael ei ddyfarnu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 6.1%.

Amcangyfrifir bod y **pwysau costau** refeniw y mae'r Cyngor yn eu hwynebu **ar gyfer 26/27 yn gyfanswm o £9.3m**, sy'n cyfateb i **ffactor chwyddiant sy'n benodol i Geredigion o 4.4%**. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredinol sydd bellach yn rhedeg ar 3.04% (ffigur CPI Ionawr 2026).

Mae **costau dyfarniadau cyflogau** yn newidyn allweddol yn y gyllideb. Nid yw'r Cyngor yn pennu Dyfarniadau Cyflog gweithwyr, ac nid yw'n cymryd rhan mewn trafodaethau Dyfarniadau Cyflog, gwneir hyn ar gyfer Cyflogau Athrawon gan Lywodraeth Cymru a gan gorff Cyflogwyr Llywodraeth Leol y DU ar gyfer staff y Cyngor yn gyffredinol. Ar gyfer dyfarniadau cyflog 26/27, rhagdybir y bydd **cost amcangyfrifedig o tua £4.1m** (mae'r swm hwn wedi'i gynnwys o fewn cyfanswm y pwysau cost o £9.3m).

Mae galwadau a phwysau parhaus ar **gyllidebau sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol**, er bod y rhain yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r **Cyflog Byw Gwirioneddol** yn cynyddu i **£13.45 yr awr - cynnydd o 6.75%**. O ganlyniad, parhau i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y **Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei dalu i staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru** yw'r prif ffactor sy'n arwain at **gost ychwanegol o £2.1m** mewn perthynas â gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynir yn allanol. Yn ogystal, mae **pwysau eraill ar gyllidebau sy'n gysylltiedig â Gofal Cymdeithasol**, yn ychwanegol at ddyfarniadau Cyflog Gweithwyr, **yn dod i gyfanswm o tua £1.4m**. **Ni chynigir unrhyw bwysau cost** mewn perthynas â **Lleoliadau Y Tu Allan i'r Sir**, gan fod hyn yn cael ei reoli o fewn y ddarpariaeth gyllidebol bresennol.

Cynigir **lleihau'r gyllideb** drwy gyfuniad o gynyddu incwm a lleihau costau, sef cyfanswm o **£2.2m (sy'n cyfateb i wrthbwyso tua 3.7% o ran Treth y Cyngor)**, gan gynnwys arbediad sylweddol o £1.6m yn sgil y gostyngiad mewn cyfraddau

Cyfraniadau Cyflogwr parhaus ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae hyn yn golygu, am yr ail flwyddyn yn olynol, **nid oes unrhyw doriadau uniongyrchol i Wasanaethau'r Cyngor.**

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymeradwyo ei Gyllideb, gan arwain at **Ardoll Tân o £5.9m ar gyfer 26/27.** Mae hyn yn rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. Yn dilyn cadarnhad o £38k o gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r pwysau cost ar gyllideb yr Ardoll Tân yn gostwng i £56k, sy'n **cyfateb i gynnydd o 0.1% yn Nhreth y Cyngor** ar gyfer eiddo Band D.

Mae ystod eang iawn o **ofynion cystadleuol ar y Rhaglen Gyfalaf**, gyda **chynnydd craidd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 26/27 o tua £100k yn unig.** Mae **lefel y cyllid cyfalaf craidd** (£6.6m ar gyfer 26/27 erbyn hyn) yn **dal i fod yn is o ran arian parod na'r hyn a dderbyniwyd 17 mlynedd yn ôl** yn 2008/09, sef £7m.

3. Cyllideb Refeniw – Manylion penodol

Mae Gofyniad Cyllideb arfaethedig y Cabinet o £221.499m ar gyfer 26/27 yn cynnwys y cynigion canlynol:

- i) **Buddsoddiad cylchol o £200k yng Nghynllun Cyflogaeth Graddedigion y Cyngor**, er mwyn caniatáu parhad â'r fenter lwyddiannus newydd hon i gynorthwyo gyda recriwtio a chadw staff yn y tymor hwy.
- ii) **£600k ychwanegol** i sicrhau bod y **Gyllideb Ysgolion Dirprwyedig gyffredinol yn cynyddu 4.1%** ar gyfer 26/27, er mwyn cyd-fynd â lefel y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru. Ar lefel ysgol unigol, bydd y sefyllfa'n cael ei heffeithio gan niferoedd disgyblion.
- iii) **£1m o gyllid cylchol** i'w neilltuo i ddechrau darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau Cyfalaf allweddol sydd ar y gweill, e.e. cynllun Amddiffyn Arfordir Aberystwyth, darpariaeth hyfforddiant galwedigaethol amaethyddol yn Llanbedr Pont Steffan a dyheadau ehangach campws Llanbedr Pont Steffan a gofynion y Rhaglen Amlinelliad Strategol Addysg yn y dyfodol (e.e. Ysgol Gynradd Aberaeron, Ysgol Gynradd Rhydypennau ac Ysgol Gynradd Penparc).
- iv) **Dyranid o £30,000** o gyllid newydd y flwyddyn i Ymddiriedolaeth **Calon Tysul** (y corff sy'n gweithredu'r pwll nofio yn Llandysul) o 01/04/26, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy parhaus(*).
- v) **Dyranid o £11,000** o gyllid ychwanegol y flwyddyn i Ymddiriedolaeth **Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch** (gan olygu bod cyllid sylfaenol yr Ymddiriedolaeth yn cynyddu i £30,000 y flwyddyn) o 01/04/26, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy parhaus (*).

* Byddai'r dyraniadau cyllid arfaethedig i'r Ymddiriedolaethau gwirfoddol yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy rheolaidd, i gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gyflwyno Cyfrifon blynyddol, darparu Cynllun Busnes hyfyw, cadarnhau bwriad i barhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy, a chadarnhau cyllid gan unrhyw Gyngor(au) Tref a Chymuned. Mae hyn er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.


4. Crynodeb o'r Gyllideb

Ceir crynodeb o'r sefyllfa gyllidebol ganlyniadol drosodd, gyda dadansoddiad pellach o Ofyniad Cyllideb 26/27 arfaethedig i'w weld yn Atodiad 1.

	<u>2026/27</u> <u>£'000</u>
<u>Adnoddau</u>	
Cynnydd Setliad Terfynol Cyllid Allanol cyfun LIC (+4.1%)	153,336
Treth y Cyngor (4.75%)	68,163
Adnoddau ar gael	<u>221,499</u>
<u>Cyllideb</u>	
Cyllideb Sylfaen a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	209,164
Grantiau a drosglwyddwyd i Setliad wedi'u trosglwyddo i Wasanaethau	3,129
Pwysau Costau'r Gyllideb (cyfwerth â chwyddiant o 4.4%)	9,252
Lleihau'r Gyllideb (gweler Atodiad 2)	(2,181)
Buddsoddi mewn Gwasanaethau	1,841
Gostyngiadau Treth y Cyngor	294
Gofyniad Arfaethedig y Gyllideb	<u>221,499</u>
	-

Felly, mae'r gyfres lawn o bapurau'r Gyllideb bellach wedi'u paratoi yn unol ag argymhellion y Cabinet. Mae'r Cyllidebau Rheoladwy sy'n deillio o'r rhain wedi'u diweddarau hefyd i adlewyrchu gofynion cyfrifyddu ar gyfer dyraniadau/ad-daliadau Mewnol (e.e. Gwasanaethau Cymorth a thaliadau Cyfalaf) er mwyn cyrraedd y Cyllidebau Net, gan gynnwys yr eitemau hyn. Felly, mae manylion y Cyllidebau Rheoladwy a Net arfaethedig i'w gweld yn Atodiad 3.

Ar sail Cyllideb arfaethedig 26/27, gellir dangos cost reoladwy uniongyrchol Gwasanaethau'r Cyngor fel a ganlyn (ac eithrio unrhyw ailddyrrannu Gwasanaethau Cymorth neu daliadau Cyfalaf megis Dibrisiant):



Gwnaed addasiadau ar gyfer:

- * Cynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir (Grŵp Arweiniol), Ffioedd Cyfreithiol (y gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (Pobl a Threfnadaeth)
- ** Yn cynnwys PFI Penweddig (Cyllid a Chaffael)

I grynhoi – byddai **75% o gyllideb y Cyngor** yn cael ei wario ar **Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes a Phriffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol**.

Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog (i raddau helaeth) eraill (e.e. Lwfansau Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Lleihau Treth y Cyngor), **dim ond 14% (£31m) sy'n weddill i ariannu holl Wasanaethau eraill y Cyngor**.

5. Am beth mae'r elfen Cyngor Sir o Dreth y Cyngor yn talu?

Mae Treth y Cyngor yn **dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail talu wrth i chi ddefnyddio Gwasanaethau**. Bydd preswylwyr yn dod ar draws ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- **Yn ifanc**, byddai hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys darparu a chludo i addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd hyd at addysg Ôl-16, boed hynny'n addysg chweched dosbarth

neu'n hyfforddiant galwedigaethol, ynghyd â mynediad at Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuencid.

- **Fel oedolyn**, gall hyn gynnwys defnyddio canolfan Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded Llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Cynllunio neu Reoliadau Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartref, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gaiff eu cynnal a'u cadw (gan gynnwys graeanu ffyrdd yn ystod misoedd y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghyn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn argyfwng.
- **Yn ddiweddarach**, bydd preswlydd yn elwa o docynnau teithio consesiynol ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn amrywio o gymorth a chyfarpar i alluogi byw'n annibynnol, gofal yn y cartref, a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys, yn y pen draw, Gwasanaeth y Crwner o bosib a chofrestru marwolaeth.

Mae'r Gofyniad Cyllideb arfaethedig o £221.499m ar gyfer 26/27 yn arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o £7.47 y mis ar gyfer eiddo Band D (sef 4.75%).

Dywedodd 55% o ymatebwyr i'r Ymgysylltiad Cyhoeddus ar y Gyllideb y byddent yn barod i dalu mwy o Dreth y Cyngor (yn amrywio rhwng £5 a £25 ychwanegol y mis), gyda 69% o'r garfan hon yn ffafrio cynnydd o £5 neu £10 y mis.

6. Cynllun Lleihau Treth y Cyngor

Mae tua 5,100 o aelwydydd yng Ngheredigion sy'n manteisio ar y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar hyn o bryd, sy'n **diogelu'r rhai sydd ar incwm isel iawn a/neu sy'n hawlio Budd-daliadau**, ac sy'n darparu i hawl wyr dderbyn gostyngiad o hyd at 100% o'u rhwymedigaeth Treth y Cyngor mewn rhai amgylchiadau.

Mae tua 1,340 (26%) o aelwydydd yn derbyn cymorth llawn ac yn talu dim Treth y Cyngor, gyda'r 3,780 (74%) o aelwydydd sy'n weddill yn derbyn cymorth rhannol ar gyfer Treth y Cyngor.

Mae'n fudd-dal prawf modd, felly bydd y swm y bydd person yn ei dderbyn yn dibynnu ar ei incwm, ei gyfalaf a'i amgylchiadau. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw rhywun yn gweithio, efallai y bydd yn dal i fod yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth. Fodd bynnag, byddai meddu ar gyfalaf o £16,000 neu fwy (ac eithrio gwerth y prif gartref) yn golygu nad yw rhywun yn gymwys i gael cymorth.

Mae **Cyfrifiannell Hawliau**, sydd ar gael i'w defnyddio gan unrhyw un er mwyn gwirio a allent fod yn gymwys i dderbyn cymorth i'w gweld ar wefan y Cyngor:

<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/benefits/>

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau/>

Amcangyfrifir y bydd cost y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn £8.1m yn 26/27, sy'n cyfateb i 3.6% o gyllideb y Cyngor. **Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol ac yn ymrwymiad ariannol allweddol i gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas sydd wedi'u heffeithio (ac sy'n parhau i gael eu heffeithio) gan effaith chwyddiant a'r argyfwng costau byw parhaus.**

7. Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Ni fu unrhyw newidiadau i'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig (Atodiad 4) a'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn (Atodiad 5) a ystyriwyd gan y Cabinet ar 13/01/26 ac a ystyriwyd hefyd yng nghyfarfodydd Cyllideb y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Y **Rhaglen Gyfalaf** arfaethedig ar gyfer **26/27 yw £42m**, gyda'r **Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn yn dod i gyfanswm o £99m** dros y cyfnod rhwng 25/26 a 28/29.

8. Dangosyddion darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r Dangosyddion Darbodus arfaethedig sydd wedi'u hatodi (Atodiad 6). Mae hefyd yn angenrheidiol bob blwyddyn i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

9. **Barn y Swyddog Adran 151**

(Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael)

O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Swyddog Adran 151 roi adroddiad yn ffurfiol i'r Cyngor fel rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb a hynny ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon a wnaed wrth gyfrifo, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

Mae'r Gyllideb ar gyfer 26/27 yn amodol ar gyflwyno a chyflawni Cynigion i Leihau'r Gyllideb sy'n dod i gyfanswm o £2.2m (fel yr amlinellir yn Atodiad 2). Mae hyn gryn dipyn yn is na'r 70 eitem, gwerth cyfanswm o £5.8m, a welwyd yng Nghyllideb 24/25. Bydd y cynnydd o ran cyflawni'r Gyllideb yn cael ei fonitro'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn drwy'r trefniadau arferol ar gyfer rheoli ariannol a chynllunio busnes. Nid yw dyfarniadau cyflog staff wedi'u pennu eto ar gyfer 26/27, felly mae lefel o risg i'r gyllideb nes bydd y rhain yn cael eu cadarnhau, ond cedwir darpariaeth wrth gefn i gynorthwyo wrth liniaru'r risg hon.

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Rheolwyr Corfforaethol i gyd yn gwbl ymwybodol o'r amgylchedd ariannol presennol, ac mae dull rheoli ariannol cryf ac ystwyth bellach wedi'i wreiddio'n dda o fewn Tîm Ceredigion. Er enghraifft - cymryd camau i liniaru, cywiro neu addasu yn ddigon cynnar yn y flwyddyn os bydd materion annisgwyl yn digwydd codi a sicrhau'r budd mwyaf posibl o gyfleoedd ariannu grantiau allanol.

Mae datganiad o Gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a Balansau Cyffredinol y Cyngor ynghlwm ar ddiwedd Atodiad 3, a gallaf gadarnhau fod lefel amcangyfrifedig y Balansau Cyffredinol, sef £7.0m yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan ddod o fewn y rhychwant o 3% i 5% a gynlluniwyd. Mae effaith cyllideb refereniw cynyddol, ynghyd â Balansau Cyffredinol cymharol statig, yn golygu bod y ganran yn gostwng yn naturiol dros gyfnod o amser, felly bydd angen rheoli hyn yn rhagweithiol.

O ran y cronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd, cydnabuwyd eisoes eu bod wedi cyrraedd eu hanterth yn ystod COVID ac y byddent yn disgyn mewn modd reoladwy gofalus wrth i'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ddod yn eu blaen (e.e. arian cyfatebol Cynlluniau Cyfalaf). Mae'r rhagamcanion cyffredol yn dal i ddangos bod cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn uwch ar 31/03/27 na'r sefyllfa cyn COVID pan oedd cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u clustnodi, fel arfer oddeutu £20m.

Mae'n ymddangos fod rhagolygon y Gyllideb y tu hwnt i 27/28 yn parhau i fod yn anodd eu rhagweld— mae'r dibyniaethau allweddol yn cynnwys: perfformiad economi'r DU, penderfyniadau gwleidyddol Llywodraeth y DU (a chanlyniadau Barnett sy'n deillio o hynny) ynghyd â chanlyniad etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Serch hynny, diweddarwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn gynhwysfawr ym mis Medi 2025, a bydd y gwaith ar yr iteriad nesaf yn dechrau yn y Gwanwyn. Mae'r gofrestr Risgiau Corfforaethol ar hyn o bryd yn cydnabod y Risg Ariannol ar sgôr o 20, wedi'i lleihau o 25 yn dilyn diweddariad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gan ystyried yr holl faterion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'r broses Gyllidebol ehangach, gallaf gadarnhau bod amcangyfrifon arfaethedig y

Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd sy'n ddigon cadarn, a bod lefel arfaethedig y Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Argymhellion:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
 - bod amcangyfrifon y Gyllideb wedi'u paratoi mewn modd sy'n ddigon cadarn.
 - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
2. Cymeradwyo'r canlynol, parthed y Gyllideb Refeniw:
 - a) Gofyniad Cyllideb y Gyllideb Refeniw ar gyfer 26/27 yw £221.499m, fel y nodir yn Atodiad 1, sy'n cynnwys y Cynigion ar gyfer lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 2.
 - b) Cyllidebau 25/26 manwl wedi'u diweddarau a Rhagolwg Cyllidebau 26/27, fel y nodir yn Atodiad 3.
 - c) Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,976.18 ar gyfer 26/27 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £89.61 (4.75%) ar gyfer y flwyddyn (sef £7.47 y mis).
 - d) Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
 - e) Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
 - f) Y Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 6.
 - g) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi pennu'r Gyllideb at gyfer 26/27 a chwblhau elfen Cyngor Sir Ceredigion o Dreth y Cyngor.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Na - Mae'r gostyngiadau arfaethedig ar gyfer cyllideb 26/27 yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw newid i bolisi.

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb wedi cael cyfle i ystyried y materion Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n deillio o'r cynigion cyllidebol manwl fel rhan o'u hystyriaethau manwl o'r Gyllideb.

Deddf Cydraddoldeb 2010:

Cafodd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb gyfle i ystyried hyn fel rhan o'u hystyriaethau manwl o'r Gyllideb. Bydd y Cyngor Llawn hefyd yn ystyried hyn fel rhan o'i drafodaethau terfynol.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg:

Cafodd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb gyfle i ystyried hyn fel rhan o'u hystyriaethau manwl o'r Gyllideb. Bydd y Cyngor Llawn hefyd yn ystyried hyn fel rhan o'i drafodaethau terfynol.

Trosolwg a Chraffu:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol, a rhoddwyd adroddiad i'r Cabinet ar 10/02/26 ar yr adborth.

Fframwaith Polisi:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Goblygiadau Cyfreithiol:

Mae hyn yn rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb ac o rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i bennu cyllideb erbyn 11 Mawrth. Mae'r Aelodau hefyd wedi derbyn cyngor ffurfiol oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau parthed pennu'r Gyllideb a'r goblygiadau posib pe na lwyddir i wneud hynny.

Goblygiadau staffio:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol.

Goblygiadau o ran eiddo / asedau:

Rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

Risq(iau):

Wedi eu hamlinellu yn adroddiadau'r gyllideb.

Pwerau Statudol:

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Papurau Cefndir:

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet - 13/01/26

Adroddiad drafft ar y Gyllideb i'r Cabinet - 10/02/26

Atodiadau:

Atodiad 1: Crynodeb o Ofyniad y Gyllideb

Atodiad 2: Lleihau'r Gyllideb

Atodiad 3: Cyllidebau Rheoladwy a Net

(gan gynnwys Datganiad o Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi a Balansau Cyffredinol)

Atodiad 4: Strategaeth Gyfalaf

Atodiad 5: Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn

Atodiad 6: Dangosyddion Darbodus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael

Swyddog(ion) Adrodd:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael

Justin Davies - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Corfforaethol

Dyddiad:

24/02/26

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Report to: Full Council

Date of meeting: 02/03/26

Title: Joint Report of the Leader, Cabinet Member - Finance & Procurement, the Chief Executive and the Executive Corporate Lead Officer - Finance & Procurement upon the 26/27 Budget, including the Capital Strategy, the Multi-year Capital Programme and Prudential Indicators for Capital and Treasury Management.

Purpose of the report: To approve the Revenue Budget Requirement for 26/27; to determine the level of Council Tax for County Council purposes for 26/27; to approve the Capital Strategy, the Multi-year Capital Programme and Prudential Indicators.

For: Decision

Cabinet Portfolio and Cabinet Member:

Cllr Bryan Davies Leader of the Council

Cllr Gareth Davies Cabinet Member for Finance & Procurement

All Cabinet Members

1. Background

Cabinet considered the draft 2026/27 Budget on 13/01/26, based on the updated WG Provisional Local Government Finance settlement (as updated following the Budget Deal agreed between WG and Plaid Cymru), and sought the views of the Budget Overview and Scrutiny Committees.

The Overview and Scrutiny Committees subsequently met on 26/01/26, 02/02/26 and 03/02/26.

At the meeting on 10/02/26, Cabinet considered:

- The Budget feedback reports from each of the Scrutiny Committee Chairs.
- The specific Budget proposal recommended by the Healthier Communities Overview & Scrutiny Committee (Additional cost of £41k).
- A report on the public Budget Engagement that was undertaken during December 2025 and early January 2026.
- An update on the WG Final Settlement (Additional funding of £6k).
- Confirmation of additional WG grant funding (£38k) to offset the cost of the Mid & West Wales Fire Authority levy.

As a result, Cabinet on 10/02/26 recommended to Full Council that:

- a) the 26/27 Budget Requirement is £221.499m.
- b) the level of the 26/27 Council Tax for County Council purposes is a 4.75% increase, which would equate to a Band D annual increase of £89.61 (being £7.47 per month).
- c) the updated Multi Year Capital Programme, as presented to Cabinet on 13/01/26, is approved.
- d) the Capital Strategy, as presented to Cabinet on 13/01/26, is approved.

2. Budget Overview

The Final 26/27 Local Government Settlement, issued on 20/01/26, resulted in Ceredigion receiving a **4.1% funding increase**. Ceredigion was 1 of 4 Local Authorities **receiving the lowest increase in Wales**, with the highest increase being Newport City Council at 6.1%.

The estimated revenue **Cost pressures** being faced by the Council for **26/27 total £9.3m**, equivalent to a **Ceredigion specific inflation factor of 4.4%**. This compares with general inflation now running at 3.0% (January 2026 CPI figure).

Payaward costs are a key budget variable. The Council does not set Employee Payawards, nor does it take part in Payaward negotiations, this is done by Welsh Government for Teachers' Pay and by the UK Local Government Employers body for general Council staff. For 26/27 pay awards, assumptions have been made with an **estimated cost of c£4.1m** (included within the £9.3m total Cost Pressures).

There are continued demands and pressures on **Social Care related budgets**, although these are lower than in previous years. The **Real Living Wage** is rising to **£13.45 per hour - a 6.75% increase**. Continuing to fulfil WG's policy of ensuring the **Real Living Wage is paid to registered Social Care staff in Wales** is therefore the main factor leading to **an additional £2.1m cost** in relation to externally commissioned Social Care services. In addition, **other pressures on Social Care related budgets**, over and above Employee Pay awards, **total c£1.4m**. **No cost pressure** is proposed in relation to **Out of County Placements**, as this is being managed within existing budget provision.

Budget Reductions, a combination of increasing income and reducing costs, are proposed at **£2.2m (equating to an offset of c3.7% in Council Tax terms)**, including a significant saving of £1.6m from the reduction in ongoing Employers Contribution rates for the Dyfed Pension Fund. This means for the second year running, there are **no direct cuts to Council Services**.

The **Mid & West Wales Fire Authority** have approved their Budget resulting in a **Fire Levy for 26/27 of £5.9m**. This forms part of Ceredigion County Council's Budget. Following the confirmation of £38k additional WG grant funding, the cost pressure on the Fire Levy budget reduces to £56k, being the **equivalent of a 0.1% Council Tax increase** on a Band D property.

There are a huge range of **competing demands on the Capital Programme**, with a **core WG funding increase** for 26/27 of **only c£100k**. The **level of core capital funding** (now £6.6m for 26/27) is **still lower in cash terms than that received 17 years ago** back in 2008/09 of £7m.

3. Revenue Budget – specific details

The Cabinet's proposed 26/27 Budget Requirement of £221.499m includes the following proposals:

- i) **A recurring investment of £200k** in the Council's **Graduate Employment Scheme**, to allow the continuation of this new successful initiative to assist with longer term recruitment and retention.
- ii) **An additional £600k** to ensure that the **overall Delegated Schools Budget increases by 4.1%** for 26/27, in order to match the level of funding received from WG. At an individual School level, the position will be impacted by pupil numbers.
- iii) **£1m of recurring funding** to be set aside to start providing match funding for key upcoming Capital projects e.g. Aberystwyth Coastal Defence scheme, Agricultural vocational training provision in Lampeter and wider Lampeter campus aspirations and future Education Strategic Outline Programme requirements (e.g. Aberaeron Primary School, Rhydypennau Primary School and Penparc Primary School).
- iv) **An allocation of £30,000** of new funding per annum to **Calon Tysul** (the Trust operating the swimming pool in Llandysul) with effect from 01/04/26, subject to ongoing due diligence (*).
- v) An **allocation of £11,000** of additional funding per annum to the **Aberaeron & District Swimming Pool Trust** (thereby taking the Trust's basic funding to £30,000 per annum) with effect from 01/04/26, subject to ongoing due diligence (*).

* *The proposed funding allocations to the voluntary Trusts would be subject to regular due diligence to include (but not limited to) submission of annual Accounts, provision of a viable Business Plan, confirmation of an intention to continue operating for the foreseeable future and confirmation of funding from any Town & Community Council(s). This is in order to ensure there is an appropriate use of public funds.*

4. Budget Summary

The resulting Budget position is summarised overleaf, with a further breakdown of the proposed 26/27 Budget Requirement shown in Appendix 1.

APPENDIX 1

2026/27
£'000

Resources


WG AEF Final Settlement Increase (+4.1%)	153,336
Council Tax (4.75%)	68,163
Resources available	221,499

Budget

Base Budget b/f from previous year	209,164
Grants transferred into Settlement passported to Services	3,129
Budget Cost Pressures (equivalent to 4.4% inflation)	9,252
Budget Reductions (see Appendix 2)	(2,181)
Investment in Services	1,841
Council Tax Reduction Scheme	294
Proposed Budget Requirement	221,499

The full suite of Budget papers has therefore now been prepared in accordance with Cabinet's recommendations. The resulting Controllable Budgets have also been updated to reflect accounting requirements for Internal allocations / recharges (e.g. Support Services and Capital charges) to arrive at Net Budgets including these items. The detail of the proposed Controllable and Net Budgets are therefore enclosed as Appendix 3.

Based on the proposed 26/27 Budget, the direct controllable cost of Council Services (excluding any re-allocation of Support Services or Capital charges such as Depreciation) can be illustrated as follows:



Adjustments made for:

* Includes Out of County Placements (from Leadership Group), Legal Fees (from Legal & Governance) & Social Care Wales Workforce Development Programme (from People & Organisation)

** Includes Penweddig PFI (from Finance & Procurement)

In summary - **75% of the Council's Budget** would be spent on **Schools & Lifelong Learning, Through Age Social Care & Wellbeing and Highways & Environmental Services.**

After providing for other (largely) fixed costs (e.g. Members Allowances, Fire Authority Levy, Capital Financing Costs and the Council Tax Reduction Scheme), **this leaves only 14% (£31m) to fund all other Council Services.**

5. What does the County Council element of Council Tax pay for?

Council Tax is a **universal tax based on property values** and **does not operate on a pay as you use Services basis.** Residents will see and access different Council services at different points in their lives:

- **At a young age** this would start with the registration of a birth and move on to include being transported to and accessing Nursery, Primary and Secondary School education through to Post 16 education, be that 6th Form education or more Vocational training and accessing Music and Youth Services.
- **As an adult** this could include using a Sports centre, using a Library, walking the Ceredigion Coast path (and other public Rights of way), registering to vote in an Election, putting in a Planning or Building Regulations application, eating in safe and regulated Food establishments, going to the Council's Museum or Theatre, having your Waste collected (and then disposed of or recycled), using a Household Waste site, driving on maintained Highways and Bridges (including roads being gritting during winter months), using a public Bus service, having Streetlights lit on your street and being able to call the Fire & Rescue Service for emergencies.
- **In later years**, a resident would benefit from Concessionary Fares on public transport, but ultimately may at some point need to access Care & Support services (using valued Social care staff who are paid at least the Real Living Wage in Wales). This could range from support and equipment to enable Independent living through to Domiciliary Home Care through to a placement in a Residential Care Home and ultimately the possible involvement of the Coroner's Service and the registration of a death.

The proposed 26/27 Budget Requirement of £221.499m results in a Council Tax increase (for the Ceredigion County Council component) of £7.47 per month for a Band D property (being 4.75%).

55% of respondents to the Public Budget Engagement responded to say that they would be prepared to pay more Council Tax (ranging between £5 and £25 extra per month), with 69% of this cohort preferring an increase in Council Tax of either £5 or £10 per month.

6. Council Tax Reduction Scheme

There are c5,100 households in Ceredigion who currently access the Council Tax Reduction Scheme, which provides **protection for those on very low incomes and / or claim Benefits** and provides for claimants to receive a reduction of up to 100% of their Council Tax liability in certain circumstances.

Approximately 1,340 (26%) of households receive full support and pay no Council Tax, with the remaining 3,780 (74%) of households receiving partial support for their Council Tax.

It is a means tested benefit, so the amount a person will get will depend on their income, capital and circumstances. This means that even if someone is working, they may still qualify for some help. However, having capital of £16,000 or more (excluding the value of the main home) would mean someone is ineligible for support.

The Council's website has an **Entitlement Calculator** which anyone can use to see if they may potentially qualify for support:

<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/benefits/>

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/budd-daliadau/>

The cost of the Council Tax Reduction Scheme is estimated to be £8.1m in 26/27, equating to 3.6% of the Council's Budget. **This is a significant investment and a key financial commitment to assist the most vulnerable in society who have been (and continue to be) affected by the impact of inflation and the ongoing cost of living crisis.**

7. Capital Strategy & Multi-Year Capital Programme

There have been no changes to the proposed Capital Strategy (Appendix 4) and the Multi-Year Capital Programme (Appendix 5) that were considered by Cabinet on 13/01/26 and also considered in the Overview & Scrutiny Committee Budget meetings.

The proposed **26/27 Capital programme is £42m** with the **Multi-year Capital programme totalling £99m** over the period 25/26 to 28/29.

8. Prudential Indicators for Capital & Treasury Management

The Capital Programme forms the basis of the proposed Prudential Indicators which are attached (Appendix 6). It is also necessary each year to delegate authority to the Executive Corporate Lead Officer: Finance and Procurement to effect movement within the total of the Authorised limit of external borrowing, and the Operational boundary.

9. Opinion of the Section 151 Officer (Executive Corporate Lead Officer: Finance & Procurement)

Under Section 25 of the Local Government Act 2003, the Section 151 officer is required to formally report to the Council as part of the Budget setting process on the robustness of the estimates made for the purposes of the calculations and the adequacy of the proposed financial reserves.

The 26/27 Budget is subject to the delivery and achievement of Budget Reductions totalling £2.2m (outlined in Appendix 2). This is considerably lower than the 70 items totalling £5.8m seen in the 24/25 Budget. The progress in delivering the Budget will be actively monitored during the year through the usual financial management and business planning arrangements. Staff Pay awards are yet to be determined for 26/27, therefore there is a level of budget risk until these crystallise, but a contingency is held to assist in mitigating this risk.

Leadership Group and Corporate Managers are all fully aware of the financial environment and there is a strong and agile financial management approach which is now well embedded within Team Ceredigion. For example - taking mitigating, corrective or alternative actions at an early enough stage in the year if unforeseen issues do arise and maximising the benefit of external grant funding opportunities.

A statement of the Council's Earmarked Reserves and General Balances is attached at the end of Appendix 3 and I am able to confirm that the estimated level of General Balances of £7.0m is adequate for the next financial year, falling within the planned range of 3% to 5%. The impact of an increasing revenue budget, combined with relatively static General Balances, means that the %age naturally declines over a period of time, so this will need to be proactively managed.

With specific Earmarked reserves, it was always recognised levels had peaked during COVID and would decline in a carefully managed way as the planned use of certain reserves occurred (E.g. Capital Schemes match funding). Current projections still show earmarked reserves being higher as at 31/03/27 than the position pre-COVID, when earmarked reserves were typically c£20m.

Indications for the Budget outlook beyond 27/28 remain difficult to forecast – key dependencies include: the performance of the UK economy, UK Government political decisions (and resulting Barnett consequentials) plus the outcome of Senedd elections in May 2026. Nevertheless, the Council's Medium Term Financial Strategy (MTFS) was comprehensively updated in September 2025, and work on the next iteration will start in the Spring. The Corporate Risk register currently recognises the Financial Risk at a score 20, having been reduced from 25 following the updated MTFS.

Taking all the matters contained in this report and the wider Budget process into account, I am able to confirm that the proposed Budget estimates have been prepared in a sufficiently robust manner and that the proposed level of Earmarked Reserves and General Balances is adequate in respect of the forthcoming financial year.

Recommendations:

1. To note that in the opinion of the Executive Corporate Lead Officer: Finance & Procurement (Section 151 Officer):
 - the Budget estimates have been prepared in a sufficiently robust manner.
 - the proposed level of Earmarked Reserves and General Balances is adequate in respect of the forthcoming financial year.
2. To approve, collectively, the following in relation to the Budget:
 - a) The Revenue Budget Requirement for 26/27 of £221.499m, as set out in Appendix 1, which includes the Budget Reductions outlined in Appendix 2.
 - b) The detailed Updated 25/26 Budgets and Forecast 26/27 Budgets, as set out in Appendix 3.
 - c) To levy a Band D Council Tax of £1,976.18 for 26/27 for Ceredigion County Council purposes, representing an increase of £89.61 (4.75%) for the year (being an increase of £7.47 per month).
 - d) The Capital Strategy, as set out in Appendix 4.
 - e) The Multi-year Capital Programme, as set out in Appendix 5.
 - f) The Prudential Indicators, as set out in the Appendix 6.
 - g) To delegate authority to the CLO: Finance & Procurement to effect movement within the total of the Authorised limit of external borrowing, and the Operational boundary.

Reasons for decision:

To enable the 26/27 Budget to be set and to finalise the County Council's element of the Council Tax.

Wellbeing of Future Generations:

Has an Integrated Impact Assessment been completed? If not, please state why.
No - The proposed 26/27 Budget reductions are limited and do not involve any change in policy.

The Budget Overview and Scrutiny Committees have had the opportunity to give consideration to the Long term, Integration, Involvement and Prevention issues arising from the detailed budget proposals as part of their detailed Budget considerations.

Equality Act 2010:

The Budget Overview and Scrutiny Committees had the opportunity to give consideration to this as part of their detailed Budget considerations. Full Council will also give consideration to this as part of their final deliberations.

Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the Welsh Language Standards:

The Budget Overview and Scrutiny Committees had the opportunity to give consideration to this as part of their detailed Budget considerations. Full Council will also give consideration to this as part of their final deliberations.

Overview and Scrutiny:

The Budget Proposals have been considered by the Coordinating Overview and Scrutiny Committee and the individual Overview and Scrutiny Committees and their feedback reported back to Cabinet on 10/02/26.

Policy Framework:

The Budget supports all aspects of the 2022-2027 Corporate Strategy.

Corporate Well-being Objectives:

The Budget supports all aspects of the 2022-2027 Corporate Strategy

Finance and Procurement implications:

Outlined within the report.

Legal Implications:

Part of the Budget setting process and the Council's legal obligation to set a Budget before 11th March. Members have also received formal advice from the Monitoring Officer in relation to their roles and responsibilities in relation to Budget-setting and the potential implications in the event of a failure to do so.

Staffing implications:

The Budget Proposals have been considered by the Co-ordinating Overview and Scrutiny Committee and the individual Overview and Scrutiny Committees.

Property / asset implications:

Part of the Budget setting process.

Risk(s):

Outlined within the Budget reports.

Statutory Powers:

Local Government Finance Act 1972.

Background Papers:

Draft Budget report to Cabinet - 13/01/26

Draft Budget report to Cabinet - 10/02/26

Appendices:

Appendix 1: Budget Requirement Summary

Appendix 2: Budget Reductions

Appendix 3: Controllable and Net Budgets

(including Statement of Earmarked Reserves & General Balances)

Appendix 4: Capital Strategy

Appendix 5: Multi-year Capital Programme

Appendix 6: Prudential Indicators

Corporate Lead Officer:

